# Rheoliadau Rhaglenni Ymchwil Ôl-radd

Rheoliad 03: 2020 Fersiwn 02
Dyddiad dod i rym: 1 Hydref 2020

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

| Dyddiad | Yn Disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 1 Hydref 2020 | 2020 Fersiwn 01 | Eglurhad pellach ar y broses ar gyfer dyfarnu graddau lle nad yw aelod o'r Bwrdd Arholi wedi cwblhau dogfennaeth derfynol (Adran 6.8). |
| 1 Gorffennaf 2020 | 2020 Fersiwn 01 | Mae trosglwyddo rhwng astudiaeth lawn amser a rhan-amser yn fwy hyblyg, gan gadw at reoliadau UKVI; mae'r cyswllt goruchwylio astudio rhan-amser wedi'i wneud yn glir; gan egluro'r gofyniad bod goruchwyliaeth yn cael ei darparu trwy gydol cyfnod 'ysgrifennu' yr ymgeisydd; gwneud yn fwy eglur bod yn rhaid i oruchwylwyr ddiweddaru cofnod gweinyddu'r myfyriwr (FyMangor) gyda phwyntiau cyswllt y myfyriwr; ychwanegu hyblygrwydd i gyfnodau prawf i gwmpasu'r ystod amrywiol o raglenni; lleihau cyfnod 'ysgrifennu' yr MScRes i 3 mis; nodi ar gyfer Graddau Meistr trwy Ymchwil nad oes angen arholiad viva lle gofynnir am gywiriadau sy'n ymwneud yn unig â chyflwyno'r traethawd hir; caniatáu i draethodau ymchwil gael eu cyflwyno'n electronig; ychwanegu darpariaethau ar gyfer amgylchiadau eithriadol, gan gynnwys ystyriaeth yr arholwr; cynyddu nifer uchaf y safleoedd a all fod yn rhan o arholiad viva; a diweddaru'r Gwiriad Cymhwyster Terfynol ar-lein o'r hen ffurflen SD1 i'r Ganolfan Ceisiadau. |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad y Cymeradwywyd | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Ysgol Ddoethurol. | Pwyllgor Rheoliadau'r Senedd ac Achosion Arbennig. | 16 Hydref 2020. | Bob tair blynedd. |

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Weithdrefn hon gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Deon y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg, yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

